Rhan D – Dilysu a chyfrif

Cynnwys

1 Paratoadau'r cyfrif

2 Presenoldeb yn y cyfrif
- Asiantau cyfrif
- Arsylwyr
- Mynediad i'r cyfrif

3 Y prosesau dilysu a chyfrif
- Cyfathrebu'r broses
- Derbyn blychau pleidleisio
- Dilysu
- Papurau pleidleisio drwy'r post yn y cyfrif
- Diogeledd blychau pleidleisio a storiwyd
- Cyfrif y pleidleisiau

4 Papurau pleidleisio amheus
- Enghreifftiau

5 Ailgyfrif

6 Pleidleisiau cyfartal
- Dulliau
- Gweithdrefn

7 Cyhoeddi'r datganiad a dychwelyd y gwrit
- Cyhoeddi'r canlyniad
- Dychwelyd y gwrit

8 Storio a gwaredu dogfennau

Atodiad – Adnoddau
- Hysbysiad o ofynion cyfrinachedd

1 Paratoadau'r cyfrif

1.1 Y cyfrif yw un o'r rhannau mwyaf dwys a llawn straen y broses etholiadol, ac yn ganolbwynt llawer o sylw i ymgeiswyr, asiantau, arsylwyr y cyfryngau yn dilyn diwedd y pleidleisio.

1.2 Caiff gweithdrefnau'r cyfrif eu craffu'n ddwys ac mae felly'n hanfodol bwysig y cynllunnir ac y paratoir ar ei gyfer ymhell o flaen llaw, fel y gellir rhagweld unrhyw broblemau posibl ac fel y gallwch gymryd camau i leihau'r risgiau a nodwyd. Mae'n hanfodol bod gan y rhai sy'n bresennol hyder yn y prosesau rydych chi a'ch staff yn eu dilyn, a'u bod yn derbyn bod y canlyniadau a gyhoeddir yn gywir.

1.3 Er nad yw dyddiad etholiad cyffredinol Seneddol y DU wedi'i osod, gellir dechrau cynllunio ymlaen llaw cyn i'r dyddiad gael ei gadarnhau. Fodd bynnag, unwaith y cadarnheir y dyddiad mae nifer o gamau y bydd rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) eu cymryd. Ymhlith y rhain y mae cadarnhau lleoliad y cyfrif a phenodi staff.

1.4 Fel y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) mae gofyn i chi wneud trefniadau ar gyfer cyfrif y pleidleisiau yn yr etholiad cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd y pleidleisio.[1] Er hynny, mater i chi yw penderfynu a ddylid cyfrif y pleidleisiau ar nos Iau neu fore Gwener. Wrth ddod i'r penderfyniad hwn bydd rhaid i chi ystyried nifer o faterion yn ymwneud â daearyddiaeth, argaeledd staff a lleoliadau, diogeledd y blychau pleidleisio, a rheoli a nifer y pleidleisiau drwy'r post a ddychwelwyd ar draws yr etholaeth. Y peth pwysicaf yw bod y cyfrif yn gywir a bod gan bleidleiswyr hyder yng nghanlyniad yr etholiad.

Mae Adran 16 'Cynllunio'r cyfrif' yn 'Hanfodion rheoli etholiadau yn effeithiol: cynllunio ar gyfer etholiad cyffredinol Seneddol y DU yn darparu rhagor o wybodaeth am baratoadau'r cyfrif, yn cynnwys amseru'r cyfrif.

Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi cynhyrchu ystod o gynhyrchion cefnogi'r cyfrif i gefnogi cyflawni prosesau cyfrif effeithiol ac effeithlon sy'n cynhyrchu canlyniadau cywir y gall pawb fod â hyder ynddynt. Gellir lawrlwytho pob un o'r cynhyrchion o wefan y Comisiwn yn www.electoralcommission.org.uk/guidance/resources-for-electoral-administrators/uk-parliamentary-elections.

[1] Rheol 44(1), PER.

2 Presenoldeb yn y cyfrif

2.1 Mae gan y bobl ganlynol hawl i fod yn bresennol yn y cyfrif yn etholiadau cyffredinol Seneddol y DU:[2]

- Y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) a'i staff
- ymgeiswyr ac un gwestai
- asiantau etholiad
- asiantau cyfrif
- Cynrychiolwyr y Comisiwn
- arsylwyr achrededig

2.2 Yn ogystal â'r rhai a restrir uchod, gall y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), yn ôl ei ddisgresiwn, ganiatáu i bobl eraill fod yn bresennol yn y gweithrediadau, cyhyd â bod y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn fodlon na fydd hyn yn amharu ar effeithiolrwydd cyfrif y pleidleisiau a'i fod naill ai wedi ymgynghori ag asiantau'r etholiad neu roedd o'r farn nad oedd yn ymarferol gwneud hynny.[3] Nid oes gan gynrychiolwyr y cyfryngau na'r heddlu hawl awtomatig i ddod i mewn i'r cyfrif a mater i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yw penderfynu caniatáu iddynt fod yn bresennol neu beidio. Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), sy'n cael gwneud y penderfyniad terfynol ar bwy i ganiatáu i ddod i mewn, ystyried pob cais gan bobl nad oes ganddynt hawl i fod yn bresennol.

2.3 Er nad oes gan gynrychiolwyr y cyfryngau hawl awtomatig i ddod i mewn, gallant wneud cais i fod yn arsylwr achrededig. Mae'n rhaid trin cynrychiolwyr y cyfryngau a achredwyd gan y Comisiwn ac yn bresennol yn y cymhwyster hynny fel unrhyw arsylwr achrededig arall. Yn yr un modd ag arsylwyr eraill, rhwymir hwy gan God ymarfer y Comisiwn ar gyfer arsylwi a chan unrhyw benderfyniad y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ar ddefnyddio camerâu ac offer recordio arall.

2.4 Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) roi bathodynnau i bawb a fydd yn bresennol yng ngweithrediadau'r cyfrif, gan gynnwys staff, er mwyn hwyluso adnabod y rhai sy'n bresennol. Dylid caniatáu i gynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol ac arsylwyr achrededig ddefnyddio eu bathodynnau adnabod a gyhoeddwyd gan y Comisiwn i'r pwrpas hwn, ac ni ddylid gofyn iddynt wisgo unrhyw drwyddedau ychwanegol eraill.



Am ragor o wybodaeth am fathau bathodynnau cynrychiolwyr ac arsylwyr achrededig y Comisiwn Etholiadol, yn cynnwys canllaw cyflym i fathau'r bathodynnau, gweler Adran 19, 'Arsylwyr etholiadol', yn *Hanfodion rheoli etholiadau yn effeithiol: cynllunio ar gyfer etholiad cyffredinol Seneddol y DU.*

[2] Rheol 40(2), PER.
[3] Rheol 44(2) a (3), PER.

2.5 Dylid logio enwau pawb sy'n bresennol, er mwyn cynorthwyo os bydd angen gwagio'r adeilad mewn argyfwng ac i'w rhoi i'r heddlu os bydd cynnwrf sifil.

Asiantau cyfrif

Am ragor o wybodaeth am benodi asiantau cyfrif, gweler Rhan B, 'Gweithredu cyn y pleidleisio', Adran 5, 'Penodi asiantau etholiad, pleidleisio a chyfrif'.

2.6 Mae'n rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) roi hysbysiad ysgrifenedig i'r asiantau cyfrif a benodwyd yn dweud ymhle ac am faint o'r gloch y bydd y cyfrif yn dechrau.[4]

Arsylwyr

2.7 Gall y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) gyfyngu ar nifer yr arsylwyr sy'n cael bod yn bresennol ar unrhyw adeg yn ystod y cyfrif.[5] Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), fodd bynnag, fod yn bwyllog wrth arfer y pŵer hwn. Mae arsylwi etholiadol yn rhan ddilys a gwerthfawr o'r broses etholiadol, a dylid gofalu na rwystrir nag atelir y broses arsylwi. Mae'n bwysig nodi nad oes gan unrhyw Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) hawl i wahardd pob arsylwr o'r broses gyfan, dim ond i gyfyngu ar nifer yr arsylwyr sy'n bresennol ar unrhyw adeg.

Am ragor o wybodaeth am arsylwyr, gweler Adran 19, 'Arsylwyr etholiadol', yn *Hanfodion rheoli etholiadau yn effeithiol: cynllunio ar gyfer etholiad cyffredinol Seneddol y DU.*

Mynediad i'r cyfrif

2.8 Dylid rhoi tocynnau neu drwyddedau mynediad i bawb sydd â hawl i fod yn bresennol yn y cyfrif, gan gynnwys cynrychiolwyr y cyfryngau. Gall fod yn ddefnyddiol cael tocynnau neu drwyddedau lliwiau gwahanol i nodi'r gwahanol gategorïau o bobl sy'n dod i'r cyfrif, e.e. cynrychiolwyr y cyfryngau, ymgeiswyr ac asiantau, a staff cyfrif. Dylid rhoi tocynnau i asiantau etholiadol iddynt eu trosglwyddo i'w hasiantau cyfrif, oherwydd yr amserlen dynn rhwng y dyddiad cau ar gyfer penodi asiantau pleidleisio a diwrnod y pleidleisio.

2.9 Dylid darparu rhestri o'r bobl sydd â hawl i fod yn bresennol i staff wrth fynedfa'r cyfrif at bwrpasau gwirio. Er hynny, nid oes rhaid i gynrychiolwyr ac arsylwyr y Comisiwn ddarparu rhybudd o flaen llaw am y mannau y maent y bwriadu mynd i arsylwi, a golyga hyn ei fod yn bosibl na fydd eu henwau ar y rhestr. Bydd angen egluro i staff diogelwch y dylid caniatáu i arsylwyr a chynrychiolwyr y Comisiwn ddod i mewn i fan y cyfrif ar ôl dangos eu bathodyn adnabod arsylwr neu gynrychiolydd y Comisiwn hyd yn oed os nad ydynt ar y rhestr. Mae'n rhaid i gynrychiolwyr ac arsylwyr achrededig ddangos

[4] Rheol 44, PER.
[5] Adran 6E(1), PPERA.

eu bathodynnau adnabod a gyhoeddwyd gan y Comisiwn bob amser er mwyn cael dod i mewn.

Mae'n rhaid darparu'r rhannau perthnasol o Adran 66 RPA 1983 yn ymwneud â chyfrinachedd i bawb sy'n dod i'r cyfrif. Un ffordd gyfleus o wneud hyn fyddai ei gynnwys ar gefn y trwyddedau mynediad sydd eu hangen er mwyn dod i mewn. Mae copi o'r darpariaethau cyfrinachedd perthnasol i'w gweld yn yr Atodiad, 'Adnoddau'.

3 Y prosesau dilysu a chyfrif

3.1 Mae'r adran hon yn darparu trosolwg o brif gamau'r prosesau dilysu a chyfrif, ac yn tynnu sylw at y gofynion cyfreithiol mewn perthynas â'r prosesau hyn. Mater i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yw penderfynu sut y cynhelir y prosesau ym mhob etholaeth, ond dylai eu cynlluniau adlewyrchu'r hyn a geir yn y canllawiau canlynol.

Mae'r Comisiwn wedi cynhyrchu ystod o gynhyrchion cefnogi i gynorthwyo'r Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) i reoli'r cyfrif.

3.2 Cyn i'r gweithrediadau gychwyn, dylid briffio goruchwylwyr a chynorthwywyr y cyfrif. Dylid esbonio'n glir iddynt yr hyn y mae gofyn iddynt ei wneud, a dylid cadarnhau unrhyw gyfarwyddiadau ysgrifenedig a gylchredwyd eisoes. Dylid lleoli'r staff wedyn yn unol â chynllun y cyfrif yn barod am ddyfodiad y blychau pleidleisio.

Cyfathrebu'r broses

3.3 Cyn i'r cyfrif gychwyn, dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) gyfarch yr ymgeiswyr, yr asiantau a phawb arall sy'n bresennol, er mwyn esbonio'r hyn a fydd yn digwydd yn y cyfrif. Bydd yn caniatáu i bawb sy'n bresennol i arsylwi ar y prosesau mewn modd synhwyrol ac i adeiladu hyder yng ngweinyddu'r cyfrif. Gall darparu gwybodaeth am y broses gyfrif hefyd helpu i leihau nifer yr ymholiadau a wneir gan ymgeiswyr ac asiantau, ac felly lleihau'r pwysau ar y rhai sy'n gweithio ar y cyfrif.

3.4 Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) roi gwybod hefyd am unrhyw bolisi yn ymwneud ag ysmygu, yfed neu ddefnyddio ffonau symudol, unrhyw faterion yn ymwneud ag iechyd a diogelwch megis gweithdrefnau gwagio'r adeilad ac ymarfer tân ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall.

3.5 Dylid gwneud cyhoeddiadau pellach drwy gydol y cyfrif, gan esbonio pa bryd ac ymhle y mae pa rannau o'r broses yn digwydd, er enghraifft er mwyn gadael i bawb wybod pan fydd y blwch pleidleisio olaf wedi cyrraedd, pan fydd y dilysu wedi'i orffen, beth yw ffigurau nifer y pleidleiswyr a phryd y penderfynir ar bapurau pleidleisio amheus.

Derbyn y blychau pleidleisio

3.6 Dylai staff sy'n derbyn blychau pleidleisio gael eu briffio i sicrhau y rhoddir y cyfrif papurau pleidleisio iddynt a'r amlen sy'n cynnwys y pleidleisiau drwy'r post a ddychwelwyd i'r orsaf bleidleisio, ynghyd â'r blwch/blychau pleidleisio, amrywiaeth o bacedi a sachau o ddeunydd arall. Lle bo'n ofynnol i Swyddogion Llywyddu gludo'r blychau i leoliad y cyfrif, dylid ei wneud yn glir i'r staff sy'n derbyn y blychau na ddylid caniatáu i unrhyw Swyddog Llywyddu adael nes bod eu blwch/blychau a'r holl ddogfennau a phacedi hyn wedi cael eu derbyn a'u gwirio gan staff cyfrif dynodedig ac, os yw'n bosibl, nes y gwneir gwiriad brysiog o'r cyfrif papurau pleidleisio.

3.7 O'r fan honno, dylid mynd â chyfrifon papurau pleidleisio at y staff cysoni, a dylid rhoi amlenni o bleidleisiau drwy'r post a roddwyd i mewn i orsafoedd pleidleisio i'r aelodau hynny o staff a ddyrannwyd i ymdrin â hwy.

3.8 Dylid gwahanu'r sachau sy'n cynnwys dogfennau'r etholiad y mae angen eu storio oddi wrth y rhai sy'n cynnwys yr eitemau a gânt eu hailddefnyddio. Dylid trefnu'r pacedi a'r parseli o'r gorsafoedd pleidleisio er mwyn dod o hyd yn hawdd i unrhyw baced.

3.9 Mae'n rhaid agor pob pecyn o bapurau pleidleisio heb eu defnyddio a'u cyfrif, gyda'r niferoedd a gyfrifwyd yn cael eu rhoi i'r aelodau hynny o staff sy'n gyfrifol am wirio'r cyfansymiau dilysu. [6]

3.10 Gwaherddir y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) rhag agor y pacedi wedi'u selio o bapurau pleidleisio a gyflwynwyd (ond cânt agor y paced sy'n cynnwys y rhestr pleidleisiau a gyflwynwyd), rhestri rhifau cyfatebol a thystysgrifau ar gyfer cyflogaeth a'r copïau wedi'u marcio o'r gofrestr a rhestri o ddirprwyon[7].

3.11 Dylid briffio staff ar y gweithdrefnau cywir ar gyfer symud blychau pleidleisio a chario sachau trwm, er mwyn lleihau'r risg o unrhyw anafiadau. Dylai staff osgoi codi blychau dros gynorthwywyr cyfrif lle bo'n bosibl.

Dilysu

3.12 Dylai hyfforddi Swyddogion Llywyddu mewn cwblhau cyfrifon papurau pleidleisio, ynghyd â chyfrifon papurau pleidleisio wedi'u cynhyrchu mewn fformat clir, sy'n hawdd eu cwblhau, helpu i ddarparu sylfaen gadarn ar gyfer y broses dilysu.

3.13 Dylai cyfrifon papurau pleidleisio, os oes modd, gael gwiriad cyntaf pan fyddant yn cyrraedd tra bydd y Swyddog Llywyddu'n bresennol o hyd, gan gynnwys o leiaf y rhifyddeg sylfaenol ar y cyfrif. Efallai y gellir rhoi rhesymau am unrhyw gamgymeriadau neu anghysondeb, er enghraifft, efallai y bydd y Swyddog Llywyddu'n cofio digwyddiad lle cerddodd etholwr i ffwrdd â phapur pleidleisio.

3.14 Mae dilysu papurau pleidleisio a ddefnyddiwyd a nas defnyddiwyd yn ofyniad cyfreithiol[8] ac mae'n hanfodol er mwyn datgan canlyniad cywir

3.15 Mae'n rhaid i bapurau pleidleisio fod **wyneb i fyny** drwy'r amser yn ystod y broses ddilysu a chyfrif, i sicrhau nad oes modd adnabod unrhyw etholwr o'r rhif neu farc adnabod unigryw arall ar gefn y papur pleidleisio.

3.16 Dylid disgrifio i ymgeiswyr ac asiantau y prosesau a ddilynir yn ystod y broses ddilysu a chyfrif er mwyn iddynt ddeall y prosesau ac arfer eu swyddogaeth graffu'n effeithiol.

---

[6] Rheol 45(5), PER.
[7] Rheol 45(5), PER a Rule 43(1)(F).
[8] Rheol 45(5), PER.

Y broses ddilysu

3.17 Dyma gamau allweddol y broses ddilysu:

1. Agorwch y paced o bapurau pleidleisio heb eu defnyddio a chanfod nifer y papurau pleidleisio nas cyhoeddwyd drwy nodi nifer y llyfrau a nifer y llyfrau rhannol o bapurau pleidleisio y tu mewn i'r paced.

2. Ym mhresenoldeb yr asiantau cyfrif, dylai goruchwyliwr y cyfrif agor y blwch pleidleisio. Pan fydd asiant wedi cysylltu sêl wrth y blwch adeg cau'r bleidlais, dylid gofalu'n arbennig y dangosir i unrhyw asiantau sy'n bresennol fod y sêl hon yn gyflawn o hyd cyn iddi gael ei thorri. Dylid troi'r papurau pleidleisio'n ofalus ar y bwrdd, gan sicrhau nad oes un ohonynt wedi cwympo i'r llawr a bod y blwch yn gwbl wag. Dylid dangos y blwch gwag i'r asiantau er mwyn eu bodloni ei fod yn wir yn wag. Dylai'r cynorthwywyr cyfrif agor y papurau pleidleisio a'u cyfrif yn fwndeli o 20, 25, 50, 100, neu ba rif arall bynnag a bennir gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol). Mae cywirdeb ar yr adeg hon yn hanfodol, felly dylid rhoi bwndeli i gynorthwyydd arall i'w cyfrif eto. Os oes unrhyw bapurau pleidleisio a gyflwynwyd wedi'u rhoi ar gam yn y blwch pleidleisio yn ystod y dydd, dylid eu tynnu allan a'u rhoi i'r goruchwyliwr.

3. Mae'n rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ddilysu pob cyfrif papurau pleidleisio wedyn. Gwneir hyn drwy gymharu'r cyfansymiau a roir ar y cyfrif papurau pleidleisio â nifer y papurau pleidleisio a gyfrifwyd ac y cofnodwyd eu bod yn bresennol yn y blwch pleidleisio. Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) hefyd gymharu papurau pleidleisio heb eu defnyddio ac a ddifethwyd, yn ogystal â'r rhestr pleidleisiau a gyflwynwyd, â'r ffigurau ar bob cyfrif papurau pleidleisio. Mae'n ddoeth peidio â rhoi gwybod i'r rheiny sy'n dilysu'r rhifau ar y cyfrif papurau pleidleisio, ac felly nifer y papurau pleidleisio y dylent ddisgwyl eu cael, cyn iddynt roi eu cyfanswm o bapurau pleidleisio i'r staff cysoni. Os bydd cyfanswm y papurau pleidleisio yn y blwch pleidleisio yn cyd-fynd â'r cyfanswm ar y cyfrif papurau pleidleisio, a'r cyfanswm o bapurau pleidleisio heb eu defnyddio, ewch ymlaen i gam 5.

4. Os na fydd y ffigurau'n cyfateb, dylid dilyn y weithdrefn ganlynol:

    a. Gwiriwch y rhifyddeg ar y cyfrif papurau pleidleisio yn llawn. Efallai bod Swyddogion Llywyddu wedi gwneud gwallau sylfaenol wrth adio a thynnu dan bwysau ac efallai bod unrhyw anghysondeb oherwydd bod y ffigurau a ddarperir ar y cyfrif papurau pleidleisio yn anghywir. Defnyddiwch y papurau pleidleisio heb eu defnyddio, a ddifethwyd ac a gyflwynwyd yn ogystal â'r pacedi eraill o ddeunyddiau a ddychwelwyd ac unrhyw lyfr log gwybodaeth i geisio nodi unrhyw reswm dros bapurau pleidleisio sydd ar goll neu rai ychwanegol.

    b. Gwiriwch y cofnod o flychau pleidleisio a gyflwynwyd i weld a gyhoeddwyd mwy nag un blwch i'r orsaf bleidleisio a sicrhewch fod pob blwch a ddyrannwyd i'r orsaf wedi'i agor ac wedi'i gyfrif.

c. Holwch a yw'r blwch pleidleisio wedi dod o leoliad mwy nag un orsaf bleidleisio ac, os felly, gwiriwch y dilysiad o'r cyfrif(on) papurau pleidleisio ar gyfer yr orsaf bleidleisio arall/gorsafoedd pleidleisio eraill yn y lleoliad hwnnw i weld a oes gwall cydadferol. Gall fod yn ddefnyddiol dilysu blychau o'r un lleoliad gorsaf bleidleisio ar yr un pryd wrth fyrddau cyfagos, neu'r naill yn syth ar ôl y llall.

ch. Os yw'r blwch pleidleisio o un orsaf bleidleisio, neu os nad oes unrhyw wall cydadferol yn y ffigurau o'r orsaf bleidleisio arall/y gorsafoedd pleidleisio eraill yn y man pleidleisio hwnnw, ail-gyfrifwch y blwch ddwywaith o leiaf, neu nes bod yr un ffigur yn cael ei gyfrif ar ddau achlysur yn olynol.

d. Ar ôl dilyn y gweithdrefnau a amlinellir uchod, os oes unrhyw anghysondeb yn parhau, dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ddefnyddio ffigur y nifer o bapurau pleidleisio a gyfrifwyd ac a ail-gyfrifwyd gan y staff cyfrif fel y ffigur a ddilyswyd a gwneud nodyn priodol ar y cyfrif papurau pleidleisio. Dylid ychwanegu'r cyfanswm a ddilyswyd a'r amrywiad rhwng hwnnw a'r nifer ar y cyfrif papurau pleidleisio, gan egluro pam mae'r amrywiad hwnnw wedi digwydd os oes modd, ar y datganiad ynghylch canlyniad y dilysiad. Dylai'r datganiad ddangos y dilynwyd y broses y cytunwyd arni.

5. Rhowch y papurau pleidleisio a ddilyswyd gyda'i gilydd i'w cymysgu mewn blychau pleidleisio gwag neu gynwysyddion addas eraill. Ni waeth beth a ddefnyddir, dylid marcio'n glir mai 'blwch cymysgu' ydyw ac, os blwch pleidleisio ydyw, ni ddylai gynnwys unrhyw farciau a ddefnyddiwyd yn ystod y pleidleisio.

6. Dylid symud pob blwch gwag o'r ardal er mwyn osgoi unrhyw ddryswch posibl. Cyn symud y blychau hyn, dylid eu hailwirio i sicrhau eu bod yn gwbl wag. Dylid eu cadw'n ddiogel fel nad ydynt yn achosi perygl.

7. Sicrhewch fod y **datganiad ynghylch canlyniad y dilysiad** wedi'i gwblhau a'i lofnodi. Dyma gofnod o'r rhifau ar gyfrifon papurau pleidleisio a niferoedd y papurau pleidleisio gwirioneddol a gyfrifwyd, a dylai hefyd gynnwys cyfanswm y papurau pleidleisio heb eu defnyddio a gyfrifwyd, ynghyd ag eglurhad am unrhyw amrywiad. Caiff unrhyw asiant wneud copi o hwn, ac yn wir gall fod yn ddefnyddiol llungopïo neu argraffu copïau o hwn i'r asiantau sy'n bresennol ar ôl cwblhau dilysu'r blychau.

8. Mae'n hanfodol fod gan y staff cyfrif restr gywir o bob blwch pleidleisio a gyflwynwyd a allai gynnwys papurau pleidleisio, o'r gorsafoedd pleidleisio ac o agor y pleidleisiau drwy'r post. Dim ond pan fyddant yn fodlon fod pob blwch wedi cyrraedd ac wedi'i agor, a bod pob papur pleidleisio wedi'i ddilysu, y bydd y dilysiad ar ben. Wedyn gall y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) gyfrifo canran nifer y pleidleiswyr a dylai roi

manylion y cyfanswm a ddilyswyd a nifer y pleidleiswyr i'r ymgeiswyr ac asiantau'r etholiad.

9. Dylid nodi bod nifer y pleidleiswyr deillio o gyfanswm y papurau pleidleisio a ddilyswyd yn y cyfrif wedi'i rannu â chyfanswm yr etholwyr sy'n gymwys i bleidleisio x 100. Ni ddylid cynnwys pleidleisiau drwy'r post a ddychwelwyd yn y ffigur hwn os nad yw'r papurau pleidleisio wedi'u hanfon i'r cyfrif (h.y. maent wedi'u gwrthod oherwydd diffyg datganiad pleidleisio drwy'r post neu'r ffaith nad oedd y datganiad wedi'i gwblhau'n briodol).

Cyfuno

Ceir cyfuno'r bleidlais yn etholiad cyffredinol Seneddol y DU â'r bleidlais mewn etholiad arall. Os defnyddir blychau pleidleisio ar wahân, dylid nodi hyd yn oed os bydd etholwr yn rhoi ei bapur pleidleisio yn y blwch 'anghywir' y dylid cyfrif ei bleidlais ei hyd. Dylai fod gweithdrefn i symud papurau pleidleisio i'r blwch cywir yn ystod y dilysu. Dylai'r weithdrefn hon fod yn dryloyw a dylid ei chyfleu'n glir i'r ymgeiswyr a'r asiantau fel ei bod yn glir i bawb sy'n bresennol pryd a pham mae papurau pleidleisio'n cael eu symud o amgylch lleoliad y cyfrif.

Mae'n rhaid agor pob blwch pleidleisio a'i ddilysu'n gyfan gwbl ar gyfer yr holl wahanol fathau o etholiad, cyn cwblhau cyfrif pleidleisiau Seneddol y DU.

Os gofynnwyd i etholwyr roi eu holl bapurau pleidleisio yn yr un blwch:

a. Mae'n rhaid didoli'r papurau pleidleisio yn ôl eu hetholiadau priodol
b. Dylid cwblhau'r weithdrefn ddilysu wedyn ar gyfer pob etholiad ar wahân.

Os gofynnwyd i etholwyr ddefnyddio gwahanol flychau pleidleisio ar gyfer pob etholiad:

a. Dylid dilysu'r gwahanol flychau pleidleisio ar yr un pryd, wrth fyrddau cyfagos naill ai ar yr un pryd neu'r naill ar ôl y llall.
b. Dylid symud unrhyw bapur pleidleisio a roddwyd yn y blwch 'anghywir' i'r blwch pleidleisio cywir.
c. Mae'n rhaid cwblhau dilysu'r gwahanol flychau pleidleisio cyn symud ymlaen i gam nesaf y broses.

Yn yr un modd â phob agwedd ar y broses ddilysu a chyfrif, mae tryloywder yn allweddol a dylai'r broses i'w dilyn fod yn glir i bawb sy'n bresennol.

Caiff yr ymgeiswyr a'r asiantau ar gyfer pob un o'r etholiadau fynychu gwiriad y blwch/blychau pleidleisio. Mae ganddynt yr hawl wedyn i ychwanegu eu sêl eu hunain os yw'r blwch sy'n cynnwys y papurau pleidleisio wedi'u dilysu am gael ei ail-selio a'i gadw nes bod y cyfrif ar gyfer yr etholiad hwnnw'n dechrau.

Sylwer: Os defnyddir blwch pleidleisio ar wahân ar gyfer pob etholiad, dylid newid y weithdrefn ddilysu a amlinellir uchod yn 4.c:

c. Gwiriwch y blychau pleidleisio ar gyfer pob math o etholiad ar gyfer pob gorsaf bleidleisio yn un man pleidleisio. Gallai dilysu'r cyfrifon papurau pleidleisio ar gyfer y gorsafoedd pleidleisio eraill yn y lleoliad hwnnw nodi gwall cydadferol gan fod etholwyr yn rhoi eu papur pleidleisio yn y blwch 'anghywir' neu mewn blwch o'r orsaf bleidleisio anghywir. Os yw'r gwallau cydadferol i gyd yn cydbwyso, gellir ystyried y bu'r dilysiad yn llwyddiannus. Gallai fod yn ddefnyddiol dilysu'r holl flychau o'r un man pleidleisio ar yr un pryd wrth fyrddau cyfagos, neu'r naill yn syth ar ôl y llall.

Ar ôl dilysu'r blychau pleidleisio, dylid symud y papurau pleidleisio i 'flwch cymysgu' ar gyfer pob gwahanol etholiad. Ar ôl eu dilysu, mae'n hanfodol cadw'r papurau pleidleisio o'r gwahanol etholiadau ar wahân.

Mae'n rhaid defnyddio'r un blwch pleidleisio mewn etholiad cyffredinol Seneddol y DU a gyfunir ag etholiad arall yn yr Alban.[9]

Dim ond yr asiantau cyfrif ar gyfer y prif etholiad sydd â'r hawl i fod yn bresennol wrth ddilysu blychau pleidleisio ar gyfer y ddau etholiad neu'r holl etholiadau, ond os yw lle'n caniatáu, dylid ystyried mynediad ehangach i gefnogi tryloywder y cyfrif.

Papurau pleidleisio drwy'r post yn y cyfrif

3.18 Bydd y blychau pleidleisio sy'n cynnwys y pleidleisiau drwy'r post a gafwyd ac a agorwyd ac a ddilyswyd eisoes gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wedi'u dosbarthu ar wahân i leoliad y cyfrif. Dylid dilysu'r papurau pleidleisio drwy'r post cyn gynted ag y bydd y cyfrif yn dechrau.

3.19 Efallai hefyd y bydd rhai papurau pleidleisio drwy'r post heb eu hagor i'w prosesu yn y cyfrif, a fydd yn cynnwys y rheiny sydd wedi'u dosbarthu mewn gorsafoedd pleidleisio neu eu dosbarthu i swyddfa'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ar ddiwrnod y pleidleisio. Caiff y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ddewis agor y pleidleisiau drwy'r post hyn yn lleoliad y cyfrif ei hun neu rywle arall, er enghraifft yn swyddfa'r etholiad. Pa leoliad bynnag a ddewisir, mae'n rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) roi 48 awr o rybudd yn ysgrifenedig i bob asiant etholiad a phob ymgeisydd unigol yn disgrifio pryd ac ymhle y bydd pob agoriad yn digwydd er mwyn iddynt arolygu'r broses.

3.20 Wrth ystyried ymhle i agor y pleidleisiau drwy'r post hyn, mae angen i Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) gofio bod y rhan hon o'r broses yn agored i ymgeiswyr, asiantau, arsylwyr a chynrychiolwyr y Comisiwn, ac y dylai fod yn bosibl iddynt arsylwi'r broses.

[9] Rheol 28(5), PER (fel y'i mewnosodwyd gan Reoliad 98(4), RPR (yr Alban) 1986).

3.21 Bydd angen i'r Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) sefydlu trefniadau priodol i gasglu, dilysu ac, os oes angen, cludo unrhyw bapurau pleidleisio drwy'r post a ddosbarthir i orsafoedd pleidleisio i sicrhau na fydd dilysiad y cyfrif yn cael ei oedi oherwydd disgwyl y blwch/blychau olaf pleidleisio drwy'r post. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn etholaethau lle nad yw ffiniau Seneddol y DU yn gyfystyr â ffiniau llywodraeth leol.

3.22 Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wneud trefniadau i gasglu unrhyw bleidleisiau drwy'r post a ddosbarthir i orsafoedd pleidleisio drwy gydol diwrnod y pleidleisio i hwyluso'r broses ddilysu, ond mae'n debygol y bydd rhai pleidleisiau drwy'r post a ddosbarthir i orsafoedd pleidleisio o hyd a fydd yn cyrraedd yn y cyfrif. Mae'n bwysig bod y staff sy'n derbyn y blychau pleidleisio'n sicrhau eu bod hefyd yn cael y pacedi o bleidleisiau drwy'r post, a'u bod yn gwybod i ble i fynd â hwy.

3.23 Os agorir y pleidleisiau drwy'r post dros ben yn lleoliad y cyfrif, mae'n bwysig cael ardal bwrpasol a staff wedi'u dyrannu'n benodol i'r dasg hon, oherwydd gallai'r nifer a dderbynnir fod yn sylweddol. Gellir symud y cyfryw staff wedyn i ddyletswyddau eraill pan fydd yr holl bleidleisiau drwy'r post wedi'u prosesu.

Gellir gweld gwybodaeth bellach am y broses agor pleidleisiau drwy'r post yn Rhan C, 'Pleidleisio absennol', Adran 7, 'Derbyn, agor a storio pleidleisiau drwy'r post'.

3.24 Dylid mynd â'r rhestri papurau pleidleisio a gafwyd heb ddatganiad pleidleisio drwy'r post a datganiadau pleidleisio drwy'r post a gafwyd heb bapur pleidleisio, ynghyd â'r papurau pleidleisio a'r datganiadau pleidleisio drwy'r post cyfatebol, i'r cyfrif er mwyn gwirio'r ddwy restr am y tro olaf i geisio paru unrhyw ddatganiadau pleidleisio a phapurau pleidleisio drwy'r post sy'n ddilys ond heb eu paru. Mae'n rhaid cynnwys unrhyw bapurau pleidleisio a datganiadau pleidleisio drwy'r post y gellir eu paru yn y cyfrif. Mae'n rhaid gwrthod unrhyw rai nad oes modd eu paru a'u rhoi yn y pacedi priodol.

Mae'n rhaid i bob paced a blwch pleidleisio sy'n cynnwys papurau pleidleisio drwy'r post gael ei ddilysu yn yr un modd ag unrhyw flwch pleidleisio o orsaf bleidleisio. Gan mai'r rhain yn aml fydd rhai o'r blychau cyntaf i'w dilysu, mae'n arbennig o bwysig cynhyrchu cyfrif a datganiad cywir ynghylch canlyniad y dilysiad er mwyn creu hyder yn y broses a'r cyfrif cyfan.

Diogeledd blychau pleidleisio a storiwyd

3.25 Mae'n rhaid bod gweithdrefnau diogelwch ar waith ar gyfer storio blychau pleidleisio a'r papurau pleidleisio, i'w gweithredu lle y bydd toriad o ran y gweithrediadau neu os yw'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wedi penderfynu cyfrif ar ddydd Gwener. Mae'n rhaid i'r dull storio fodloni'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ei fod wedi cymryd camau digonol i sicrhau y cedwir y papurau pleidleisio yn ddiogel ac nad oes modd ymyrryd â hwy. Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) drafod y trefniadau hyn â'r

heddlu a chynnwys arbenigwyr diogelwch eraill fel sy'n berthnasol (gallai'r rhain fod yn fewnol). Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) gyfleu'r trefniadau hyn i ymgeiswyr ac asiantau, oherwydd bydd hyder yng nghanlyniad yr etholiad yn dibynnu i raddau ar fodloni pob cyfranogwr fod mesurau diogelwch cadarn wedi'u rhoi ar waith.

3.26 Yn ogystal â rhagofalu'n briodol ynghylch y diogelwch a ddarperir gan y cyfleuster storio lle cedwir dogfennau a blychau pleidleisio, dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) sicrhau bod pob dogfen a blwch pleidleisio a roir mewn storfa ddiogel hefyd yn cael ei selio'n unigol. Yn arbennig, dylai'r blychau pleidleisio gael eu selio er mwyn atal cyflwyno papurau pleidleisio ychwanegol. Mae darpariaeth i asiantau pleidleisio gysylltu eu seliau wrth flychau pleidleisio ar ddiwedd y bleidlais, a darpariaeth debyg i asiantau cyfrif gysylltu eu seliau os bydd y gwaith cyfrif yn oedi a bod blychau a dogfennau etholiad am gael eu storio nes bod y cyfrif yn ailddechrau. Gallai hyn olygu bod asiantau'n dymuno gosod eu seliau ar ddrws y cyfleuster storio.

3.27 Dylid gwirio nifer y blychau a ddychwelir a roddwyd mewn storfa ddiogel, gyda system ar waith i sicrhau bod pob blwch perthnasol wedi'i ddychwelyd.

3.28 Wrth ailddechrau gweithrediadau yn dilyn toriad, dylid agor pob blwch o flaen unrhyw asiantau sy'n bresennol. Pan fydd asiant wedi cysylltu sêl wrth flwch, dylid gofalu'n arbennig er mwyn dangos i unrhyw asiantau sy'n bresennol fod y sêl hon yn gyflawn o hyd cyn ei thorri. [10].

Cyfrif y pleidleisiau

3.29 Wrth gynllunio trefn y cyfrif, os oes gan etholaeth arbennig nifer fawr o ymgeiswyr yn ymladd yr etholiad, dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ystyried effaith papurau pleidleisio hir ar gyfrif pleidleisiau.

Didoli

3.30 Dylai cynorthwywyr cyfrif gymysgu'r papurau pleidleisio, er enghraifft papurau pleidleisio drwy'r post a phapurau pleidleisio blychau pleidleisio, a'u didoli yn bleidleisiau i bob ymgeisydd. Dylid cadw papurau pleidleisio â'u **hwyneb i fyny** drwy gydol y broses er mwyn sicrhau na ellir gweld y rhif a'r marc adnabod unigryw arall ar gefn y papur pleidleisio.[11] Dylid rhoi'r papurau pleidleisio yn wynebu'r un ffordd fel y gall yr asiantau cyfrif eu gweld bob amser. Dylid rhoi unrhyw bapurau pleidleisio amheus i'r goruchwyliwr i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) benderfynu arnynt. Efallai y byddai'n briodol cael blwch ar y bwrdd i gadw'r rhain ynddo.

3.31 Ni ddylid cynnwys papurau pleidleisio a gyflwynwyd mewn cyfrif neu ailgyfrif o dan unrhyw amgylchiadau.

3.32 Dylid cyfrif y pleidleisiau i bob ymgeisydd mewn bwndeli o 20, 25, 50 neu 100, yn dibynnu ar y dewis yn lleol, a dylid eu clymu â chlip neu fand

[10] Rheol 45, PER.
[11] Rheol 45(4), PER.

rwber. Dylid cysylltu slip gydag enw'r ymgeisydd arno wrth flaen y bwndel. Efallai y bydd yn fuddiol os defnyddir lliw, er enghraifft yn lliw'r blaid briodol. Dylai cynorthwywyd cyfrif arall ailgyfrif y bwndeli hyn er mwyn sicrhau bod y bwndel yn gywir.

3.33 Yna, dylai goruchwyliwr y cyfrif fynd â'r bwndeli o bapurau pleidleisio i'r prif fwrdd cyfrif, lle y dylid ailwirio'r bwndeli drwy fflicio drwyddynt er mwyn sicrhau bod yr holl bleidleisiau yn y bwndel i'r un ymgeisydd. Dylid rhoi'r bwndeli mewn blychau neu resi, gyda chardiau wedi'u rhifo yn dangos pob bwndel o 100 o bleidleisiau neu ryw nifer arall y penderfynwyd arno o flaen llaw. Dylai'r broses hon fynd rhagddi nes bod y pleidleisiau i gyd i bob ymgeisydd wedi'u cyfrif. Mae'n annhebygol y bydd nifer y pleidleiswyr yn y bwndel terfynol i bob ymgeisydd yn gyfartal â'r nifer y penderfynwyd arno o flaen llawr, ac felly dylid nodi'r nifer o bleidleisiau yn y bwndeli hynny ar slip addas o bapur sy'n nodi'n glir nad yw'r bwndel yn gyflawn, a dylid cyyslltu'r nodyn hwn wrth flaen pob un o'r bwndeli hynny.

3.34 Dylid penderfynu ar y papurau pleidleisio amheus a roddwyd o'r neilltu at sylw'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), a dylid ychwanegu'r rhai yr ystyrir eu bod yn ddilys i fwndeli'r ymgeisydd hwnnw. Dylid ailgyfrif y rhai yr ystyrir eu bod yn annilys a'u rhoi yn y llestr ar gyfer pleidleisiau a wrthodwyd. Mae rhagor o wybodaeth am y broses ddyfarnu i'w chael yn Adran 4, 'Papurau pleidleisio amheus'.

Cysoni

3.35 Unwaith y caiff yr holl bapurau pleidleisio eu didoli ac y penderfynir ar unrhyw bleidleisiau amheus, gellir dechrau ar y dasg allweddol o gysoni.

3.36 Dylid cyfrif yr holl fwndeli a'r bwndeli rhannol ar gyfer pob ymgeisydd. At hynny, dylid cyfrif pob papur pleidleisio a wrthodwyd. Dylid wedyn ychwanegu'r ffigurau i'r ymgeiswyr i gyd at nifer y papurau pleidleisiau a wrthodwyd, a dylai'r ffigur hwn fod yn gymwys yr un peth â'r ffigur dilysu a gafwyd ar ddiwedd y dilysu. Os bydd y ddau ffigwr yn cytuno, dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) symud ymlaen i broses ymgynghori â'r ymgeiswyr a'u hasiantau ar y canlyniad (gweler paragraffau 3.39 i 3.42).

3.37 Os na fydd y ffigurau'n cytuno, dylid defnyddio'r weithdrefn ganlynol:

- Gwiriwch yr ardal storio, a gwirio i sicrhau bod y blychau i gyd wedi'u hagor a bod y blychau i gyd yn wag.
- Gwiriwch bob llawr ac wynebau am bapurau pleidleisiau a ollyngwyd yn y man cyfrif.
- Ailwiriwch y ffigurau dilysu a'r cysoniad ar gyfer camgymeriadau cyfrifo.
- Sicrhewch y cyfrifir am bob papur pleidleisio a wrthodwyd.
- Ystyriwch ailgyfrif y papurau pleidleisio yn y bwndeli.

3.38 Mae'n rhaid bod y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wedi'i fodloni bod y canlyniad a roddwyd yn adlewyrchu'r pleidleisiau a dderbyniwyd, ac felly dylai gyflawni'r gwiriadau uchod ac unrhyw wiriadau eraill sydd yn

angenrheidiol yn eu barn er mwyn bod yn fodlon cyn symud ymlaen i ymgynghori â'r ymgeiswyr a'r asiantau ar y canlyniadau dros dro.

Ymgynghori â'r ymgeiswyr ac asiantau ar y canlyniadau dros dro

3.39 Y cam nesaf yw casglu'r ymgeiswyr ac asiantau etholiad ynghyd a rhoi canlyniad y cyfrif iddynt a gofyn iddynt gytuno ar gyhoeddi'r canlyniad.

3.40 Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) roi digon o amser i'r ymgeiswyr a'r asiantau ystyried y canlyniad dros dro cyn symud ymlaen at y cyhoeddiad.

3.41 Dyma pryd y gall unrhyw ymgeisydd neu asiant etholiad ofyn i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) drefnu i'r pleidleisiau gael eu hailgyfrif neu, yn dilyn ailgyfrif, eu hailgyfrif eto.

3.42 Gall y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wrthod ymgymryd ag ailgyfrif neu ailgyfrif eto os yw'n credu bod y cais yn afresymol. Ar ôl gorffen yr ailgyfrif, dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ymgynghori â'r ymgeiswyr ac asiantau ar y canlyniad dros dro unwaith eto.

Mae rhagor o wybodaeth am ailgyfrif i'w chael yn Adran 5, 'Ailgyfrif'.

3.43 Ar ôl ystyried y canlyniad dros dro, sy'n cynnwys ystyried unrhyw ofyniad am ac ymgymryd ag unrhyw ailgyfrif(on), gall y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) symud ymlaen i gyhoeddi'r canlyniad.

4 Papurau pleidleisio amheus

Bwriedir yr adran hon fel canllaw yn unig. Yn y pen draw, y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) sy'n penderfynu ar unrhyw bapur pleidleisio penodol a'r swyddog hwnnw fydd yn dod i farn yn seiliedig ar gyfraith achos. Mae penderfyniad y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn derfynol, yn amodol i adolygiad ar ddeiseb etholiadol yn unig.[12]

4.1 Dylid rhoi unrhyw bapurau pleidleisio amheus mewn blwch i oruchwyliwr y cyfrif fynd ag ef at y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) iddo/iddi benderfynu arnynt. Mae angen rhoi rhagor o ystyriaeth i'r papurau pleidleisio hyn:

- diffyg marc swyddogol (nid y marc adnabod unigryw)
- pleidleisio dros fwy nag un ymgeisydd
- pan fo bwriad y pleidleisiwr yn ansicr
- bod ag ysgrifen neu farc ar unrhyw ran o'r papur y gellir ei defnyddio i adnabod y pleidleisiwr
- unrhyw bapur pleidleisio y mae rhywbeth anarferol amdano (er enghraifft, unrhyw bapur pleidleisio yr ymddengys iddo gael ei newid, naill ai â chyfarpar ysgrifennu sydd yn amlwg yn wahanol neu â hylif cywiro)
- unrhyw bapur pleidleisio sydd wedi'i rwygo neu wedi'i ddifrodi mewn unrhyw ffordd

4.2 Mae'n bwysig dyfarnu ar bapurau pleidleisio amheus yn rheolaidd wrth i'r cyfrif fynd rhagddo. Peidiwch â gadael dyfarnu ar bapurau pleidleisio amheus tan ddiwedd y cyfrif.

4.3 Y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), neu unrhyw Ddirprwyon a benodwyd, a ddylai ddyfarnu ar bapurau pleidleisio amheus, ym mhresenoldeb yr ymgeiswyr ac asiantau, cynrychiolwyr y Comisiwn ac arsylwyr achrededig, gan roi rhesymau am bob penderfyniad a wneir.

Wrth ddyfarnu ar bapurau pleidleisio amheus, dylid dilyn yr egwyddorion canlynol:

- Cymerwch amser i sicrhau y rhoddir penderfyniad pwyllog ym mhob achos.
- Byddwch yn glir ac yn gyson bob amser.
- Ceisiwch ganiatáu, nid gwrthod.
- Ceisiwch, lle bynnag y bo'n bosibl, ganfod bwriad y pleidleisiwr a'i weithredu.

4.4 Caiff y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wrthod papur pleidleisio o dan yr amgylchiadau canlynol yn unig: [13]

[12] Rheol 48, PER.

- nid yw'n dwyn y marc swyddogol (nid y marc adnabod unigryw)
- rhoddir pleidleisiau i fwy nag un ymgeisydd arno
- ysgrifennwyd neu wnaed marc arno y gellir ei ddefnyddio i adnabod pleidleisiwr
- mae heb ei farcio neu nid yw bwriad y pleidleisiwr yn sicr

4.5 Fodd bynnag, oni bai fod y ffordd y mae'r papur pleidleisio wedi'i farcio yn caniatáu adnabod pleidleisiwr, ni ddylid gwrthod papur pleidleisio y cafodd y bleidlais ei marcio arno yn y ffyrdd canlynol os yw bwriad y pleidleisiwr yn glir:

- rhywle heblaw y lle cywir
- dulliau eraill heblaw am drwy groes
- trwy fwy nag un marc

4.6 Dylid trin papurau pleidleisio yr ymddengys eu bod wedi'u newid, naill ai gan gyfarpar ysgrifennu gwahanol neu hylif cywiro, fel rhai 'amheus' a'u cyflwyno i gael penderfyniad arnynt, pan fydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn penderfynu ar eu dilysrwydd ym mhresenoldeb yr ymgeiswyr ac asiantau. Er y dylid cyfrif y cyfryw bapurau pleidleisio o hyd os ydynt yn ateb gofynion eraill dilysrwydd, gall y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ystyried eu pecynnu ar wahân rhag ofn y cânt eu herio neu y bydd archwiliad yn ddiweddarach.

4.7 Dylid cynnwys unrhyw bapurau pleidleisio y bernir eu bod yn ddilys yn y cyfansymiau i'r ymgeiswyr priodol.

Mae'n bwysig nodi, unwaith y penderfynir ar bapurau pleidleisio, na ellir penderfynu arnynt eto, gan fod penderfyniad y Swyddog Canlyniadau ar unrhyw gwestiwn yn codi mewn perthynas â phapur pleidleisio'n derfynol.[14] Mae hyn yn cynnwys y papurau pleidleisio hynny y penderfynwyd eu bod yn dda i ymgeiswyr, nid yn unig y rhai a gafodd eu gwrthod.

4.8 Mae'r rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) lunio datganiad yn dangos nifer y papurau pleidleisio a wrthodwyd o dan bob un o'r penawdau canlynol:[15]

- diffyg marc swyddogol
- pleidleisio dros fwy nag un ymgeisydd
- ysgrifen neu farc y gellid ei ddefnyddio i adnabod pleidleisiwr
- heb eu marcio neu'n ddi-rym oherwydd ansicrwydd

4.9 Dylid stampio'r gair 'gwrthodwyd' ar bob papur pleidleisio a wrthodwyd a dylid ei roi mewn paced ar gyfer papurau pleidleisio a wrthodwyd.

[13] Rheol 47, PER.
[14] Rheol 48, PER.
[15] Rheol 47(4), PER.

4.10 Os bydd unrhyw asiant yn gwrthwynebu'r penderfyniad i wrthod, mae'n rhaid arnodi'r papur pleidleisio gyda'r geiriau 'gwrthwynebwyd y gwrthodiad'. Er y dylai'r arsylwyr fod yn gallu arsylwi'r broses hon, yn wahanol i asiantau nid oes ganddynt hawl i wrthwynebu gwrthod papur pleidleisio.

Enghreifftiau

Ceir enghreifftiau a awgrymir o bapurau pleidleisio a ganiatawyd ac a wrthodwyd ar fat bwrdd y gellir ei archebu. Am fanylion archebu gweler Rhan A, 'Cyd-destun', Atodiad, 'Adnoddau'.

Rhoddir llyfryn yn ymdrin â phapurau pleidleisio amheus ar gael hefyd ar ein gwefan yn www.electoralcommission.org.uk/guidance/resources-for-electoral-administrators/uk-parliamentary-elections.

5 Ailgyfrif

5.1 Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) fod wedi'i fodloni bod nifer y pleidleiswyr i bob ymgeisydd yn gywir cyn symud ymlaen i ganlyniad dros dro. Ar yr adeg hon, mae gan ymgeiswyr ac asiantau etholiad hawl i ofyn am ailgyfrif.

5.2 Efallai y bydd nifer o resymau pam y gall ymgeisydd neu asiant ofyn am ailgyfrif. Er enghraifft, mae'n bosibl mai dim ond gwahaniaeth bach fydd rhwng y pleidleisiau a roddwyd ar gyfer y ddau ymgeisydd ar y brig neu efallai bod gwahaniaeth rhwng y ffigur dilysu a chyfanswm y pleidleisiau a gyfrifwyd. At hyn, efallai y bydd ymgeisydd neu asiant yn credu i wall ddigwydd yn ystod y broses, neu mai dim ond ychydig o bleidleisiau sydd eu hangen ar ymgeisydd er mwyn rhoi'r blaendal yn ôl.

5.3 Mae'n rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ystyried unrhyw gais ond gall ei wrthod os yw ailgyfrif, yn ei farn ef, yn afresymol. Gall y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), fodd bynnag, ystyried cynnig cyfle i'r ymgeiswyr ac asiantau archwilio'r bwndeli o bapurau pleidleisio fel modd o roi sicrwydd iddynt fod y canlyniad yn gywir.

5.4 Os bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn cytuno i ailgyfrif y pleidleisiau, dylid rhoi gwybod i ymgeiswyr ac asiantau yn y cyfrif cyn i'r broses gychwyn. Fel gyda'r cyfrif gwreiddiol, dylid cynnal unrhyw ailgyfrif yng ngolwg yr ymgeiswyr ac asiantau, cynrychiolwyr y Comisien ac arsylwyr achrededig fel y gallant arsylwi'r broses. Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wirio canlyniad yr ailgyfrif ac, os yw'n fodlon, rhoi gwybod i'r ymgeiswyr a'r asiantau am y canlyniad dros dro newydd. Dylid cynnal y prosesau a ddisgrifir o dan bennawd 'Ymgynghori â'r ymgeiswyr ac asiantau ar y canlyniadau dros dro' yn Adran 3, 'Y prosesau dilysu a chyfrif', eto.

5.5 Mae'n bosibl cael mwy nag un ailgyfrif, yn enwedig os yw'r canlyniadau'n agos iawn at ei gilydd o hyd neu os oes gwahaniaeth sylweddol rhwng y cyfrif cyntaf a'r ailgyfrif. Ond os yw canlyniad yr ailgyfrif yr un peth â'r cyfrif gwreiddiol, neu'n agos iawn ato, mae'n bosibl na fydd llawer o bwrpas cynnal ailgyfrif arall eto. Er mwyn cadarnhau'r fath benderfyniad, dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) esbonio'r rhesymau pam na fyddai ailgyfrif yn newid y canlyniad yn sylweddol.

6 Pleidleisiau cyfartal

6.1 Ar ôl ailgyfrif y pleidleisiau, os yw'r pleidleisiau'n gyfartal o hyd, mae'n rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) benderfynu rhwng yr ymgeiswyr drwy fwrw coelbren.[16] Bydd pa ymgeisydd bynnag sy'n ennill yn derbyn pleidlais ychwanegol sy'n galluogi cyhoeddi iddo/iddi gael ei (h)ethol.

6.2 Nid oes unrhyw ofyniad i fwrw coelbren os caiff un ymgeisydd ei ethol gan fwyafrif o bleidleisiau ac mae'r pleidleisiau'n gyfartal rhwng ymgeiswyr eraill nad ydynt yn y safle cyntaf ac felly ni allant gael eu hethol.

Dulliau

6.3 Diffinnir 'coelbren' fel gwrthrych, e.e. darn o bapur neu welltyn, wedi'i dynnu neu ei daflu allan o blith nifer er mwyn gwneud penderfyniad ar hap.

Enghreifftiau o fathau o goelbren yw:

- Rhoddir papurau pleidleisio, pob un wedi'i farcio gyda phleidlais ar gyfer un o'r ymgeiswyr gyda'r un nifer o bleidleisiau, mewn cynhwysydd, megis blwch pleidleisio gwag neu het, eu cymysgu ac wedyn tynnir un gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol).
- Darnau o bapur ag enwau'r ymgeiswyr arnynt, wedi'u rhoi mewn amlenni wedi'u selio, wedi'u shifflo ac wedyn eu tynnu gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol).
- Caiff pecyn o gardiau ei shifflo a dewisir cerdyn; etholir daliwr y cerdyn isaf neu uchaf (fel y cytunwyd cyn bwrw coelbren) (mae'r âs yn uchel).
- Teflir darn o arian, ac mae'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn penderfynu o flaen llaw pwy fydd yn ben a phwy fydd yn gynffon.

6.4 Mater i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) benderfynu yw'r dull o fwrw coelbren.

Gweithdrefn

6.5 Dylid gwneud cyhoeddiad ffurfiol y bwriedir mynd ymlaen gyda bwrw coelbren rhwng yr ymgeiswyr sydd â nifer cyfartal o bleidleisiau, gan esbonio yn union beth sydd ar fin digwydd a'r dull i'w ddefnyddio. Dylai ymgeiswyr, asiantau, cynrychiolwyr y Comisiwn ac arsylwyr achrededig fod yn bresennol yn ystod unrhyw baratoi a bwrw coelbren.

6.6 Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ymgymryd â'r bwrw coelbren, gan fod hynny'n ofyniad penodol o'r rheoliad. Fodd bynnag, gellir dirprwyo hyn i'r Dirprwy Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), cyhyd â chawsant eu penodi gyda phwerau llawn.

6.7 Os yw'n defnyddio'r dull cyntaf a ddisgrifiwyd ym mharagraff 6.3, dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), yng ngolwg unrhyw ymgeiswyr neu

[16] Rheol 49, PER.

asiantau etholiad, yn enwedig y rhai yr effeithir arnynt gan y canlyniad, ac ym mhresenoldeb cynrychiolwyr y Comisiwn ac arsylwyr achrededig, blygu a rhoi papur pleidleisio a gyfrifwyd yn flaenorol ar gyfer pob un o'r ymgeiswyr sydd â'r un nifer o bleidleisiau, wedi'i farcio â phleidlais dda ar gyfer yr ymgeisydd hwnnw, mewn blwch pleidleisio gwag. Dylai cynorthwyydd godi'r blwch i uchder lle na all y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) weld y papurau pleidleisio y tu mewn i'r blwch, ond gall roi ei lawn y tu mewn i ddewis un. Ar ôl cymysgu, dylid tynnu un o'r papurau pleidleisio o'r blwch a'i agor, a darllen enw'r ymgeisydd â'r bleidlais wedi'i farcio yn erbyn ei enw ar goedd. Bernir i'r ymgeisydd hwnnw ennill y bleidlais ychwanegol. Dylid gwneud paratoadau tebyg ar gyfer unrhyw un o'r dulliau a amlinellwyd uchod.

6.8 Dylid ychwanegu datganiad at y daflen ganlyniadau i ddweud:

Yn dilyn pleidleisiau cyfartal, bwrwyd coelbren ac o ganlyniad dyrannwyd pleidlais ychwanegol i ymgeisydd X.

7 Cyhoeddi'r datganiad a dychwelyd y gwrit

Cyhoeddi’r canlyniad

7.1 Mae’n hanfodol y sefydlir y trefniadau ar gyfer cyhoeddi canlyniad ymhell cyn i'r cyfrif ddigwydd.

Yng Nghymru a Lloegr, oni bai fod y Swyddog Canlyniadau wedi rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) erbyn y diwrnod ar ôl derbyn y gwrit yn dweud ei fod am gyhoeddi’r canlyniad, mae’n rhaid i’r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) neu Ddirprwy dynodedig roi'r canlyniad.

7.2 Dylid rhoi ystyriaeth i’r ffactorau canlynol wrth ystyried cyhoeddi canlyniad:

- Penderfynu ar yr union leoliad yn y man cyfrif lle y cyhoeddir y canlyniad a phwy fydd ar y llwyfan yn ystod yr adeg hon. Dylai’r llwyfan fod yn hygyrch i bawb sydd angen mynd arno. Mae rhai awdurdodau’n defnyddio byrddau arddangos ac ati ar gyfer cyhoeddi canlyniadau.
- Mae’n rhaid gosod a gwirio unrhyw gyfarpar cyhoeddi cyn i'r cyfrif ddechrau.
- Gwiriwch fod y canlyniad yn gywir eto a sicrhau y caiff ei ysgrifennu yn y ffurf o eiriau i gael ei gyhoeddi ar lafar er mwyn osgoi unrhyw wallau. Bydd cynrychiolwyr y cyfryngau'n awyddus i sicrhau bod y canlyniadau’n cael eu cyfathrebu ganddynt yn gywir ac felly mae’n bosibl y byddant yn gofyn am i gopi ysgrifenedig gael ei roi pan wneir y cyhoeddiad. Gan gofio natur yr etholiad mae’n bosibl y bydd mwy o ddiddordeb gan y cyfryngau yn y cyfrif a chyhoeddiad y canlyniad, gan gynnwys y posibilrwydd y bydd cwmnïau’r cyfryngau am gynnal darllediad byw.
- Mae’n ofyniad darparu hysbysiad cyhoeddus o enw’r ymgeisydd a etholwyd, cyfanswm y pleidleisiau a roddwyd i bob ymgeisydd a'r nifer o bapurau pleidleisio a wrthodwyd o dan bob pennawd.[17] Pan fydd ymgeisydd wedi defnyddio ei enw a ddefnyddir yn gyffredin i sefyll yn yr etholiad, dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ddefnyddio'r enw llawn a'r enw a ddefnyddir yn gyffredin wrth gyhoeddi'r canlyniad.
- Unwaith y cyhoeddwyd canlyniad ac y rhoddwyd hysbysiad cyhoeddus o'r canlyniad, nid oes gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) unrhyw bŵer i newid y canlyniad, hyd yn oes os deuir o hyd i bapurau pleidleisio heb eu cyfrif wedyn. Mae felly yn hanfodol bod y canlyniad yn gywir ac y gwirir y blychau pleidleisio gwag cyn diwedd y cyfrif. Dylai uwch aelod o’r tîm goruchwylio wirio bod yr holl bleidleisiau a ddilyswyd a phleidleisiau drwy'r post yn cyfateb i gyfanswm y pleidleisiau a roddwyd i bob ymgeisydd wedi’u hadio at yr holl bleidleisiau a wrthodwyd a dylai gadarnhau hynny wrth y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol). Dylai cynllunio'n ofalus sicrhau na fydd unrhyw broblemau’n digwydd.

[17] Rheol 50(1)(c), PER.

Ar ôl cyhoeddi'r canlyniad, mae'n derfynol ac ni ellir ei newid. Nid yw'r pŵer i gywiro gwallau trefniadol yn rhoi pŵer i Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) gywiro canlyniad anghywir ar ôl ei gyhoeddi. [18] Am ragor o wybodaeth am arsylwyr, gweler Adran 4, 'Cynllunio'r Etholiad' yn *Hanfodion rheoli etholiadau yn effeithiol: cynllunio ar gyfer etholiad cyffredinol Seneddol y DU*.

7.3 Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ddarparu canlyniadau'r etholiad ar wefan ei awdurdod lleol gyda'r nod o roi'r canlyniadau ar gael mor gyflym ac mor rhwydd ag sy'n ymarferol.

Dychwelyd y gwrit

7.4 Ar ôl cyhoeddi'r canlyniad, mae'n rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ddychwelyd y gwrit i Glerc y Goron cyn gynted ag y bo modd. Mae'n rhaid arnodi'r gwrit gydag enw'r aelod a etholwyd.[19]

7.5 Mae'n rhaid bod y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) heb unrhyw amheuaeth (i'r graddau ag y mae'n bosibl) y rhoddir enw llawn yr aelod, unrhyw deitl (fel y Gwir Anrhydeddus) a'i gyfeiriad yn yr arnodiad llawn o'r gwrit. Ni fydd y manylion a roddir yn y papur enwebu'n ddigonol i'r perwyl hwn bob amser.

7.6 Mae'n rhaid i'r person sy'n arnodi'r gwrit, y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ei lofnodi a nodi ym mha gymhwyster y mae'n gweithredu. Dylid gwneud llungopi o'r gwrit wedi'i arnodi rhag ofn iddo fynd ar goll wrth ei drosglwyddo i Glerc y Goron.

[18] Adran 46(2), EAA.
[19] Rheol 51, PER.

8 Storio a gwaredu dogfennau

8.1 Ar ôl yr etholiad, mae'n rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) anfon y dogfennau etholiad perthnasol ymlaen at y swyddog perthnasol.

Am ragor o wybodaeth am anfon dogfennau ymlaen, gan gynnwys disgrifiad o ba ddogfennau sydd i'w hanfon ymlaen ac at bwy, gweler Rhan DD, 'Ar ôl cyhoeddi'r datganiad' Adran 1, 'Cadw, storio ac archwilio dogfennau'r etholiad'.

8.2 Mae'n bwysig y caiff parseli o ddogfennau eu paratoi'n gywir, ac felly mae'n hanfodol bod pawb sy'n ymwneud â chreu parseli neu gasglu deunyddiau o fan y cyfrif yn deall yn union yr hyn sydd ei angen.

Rhoddir canllaw pellach ar baratoi parseli ar gyfer trosglwyddo i fan storio yn Rhan DD, 'Ar ôl cyhoeddi'r datganiad', Adran 1, 'Cadw, storio ac archwilio dogfennau'r etholiad'.

8.3 Dylid storio pob paced a llestr sy'n cynnwys dogfennau etholiad yn ddiogel fel na all unrhyw berson heb awdurdod ymyrryd â hwy. Dylid hefyd roi'r dyddiad dinistrio cynharaf arnynt er mwyn sicrhau na chânt eu gwaredu yn ddamweiniol cyn diwedd y cyfnod cadw.

8.4 Dylid gwneud trefniadau i ddychwelyd unrhyw gyfarpar etholiad, megis blychau pleidleisio gwag, i'r man storio.

Atodiad – Adnoddau

Hysbysiad o ofynion cyfrinachedd

Adran 66 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (fel y'i diwygiwyd)

[...]

(2) Every person attending at the counting of the votes shall maintain and aid in maintaining the secrecy of voting and shall not –

(a) ascertain or attempt to ascertain at the counting of the votes the number or other unique identifying mark on the back of any ballot paper;

(b) communicate any information obtained at the counting of the votes as to the candidate for whom any vote is given on any particular ballot paper.

[...]

(6) If a person acts in contravention of this section he shall be liable on summary conviction to a fine not exceeding level 5 on the standard scale or to imprisonment for a term not exceeding 6 months.